Y CYNGOR DINAS A SIR CAERDYDD SIR

Cyfarfu'r Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd yn Neuadd y Sir, Caerdydd ar Dydd Iau, 25 Hydref 2018 i drafod y busnes a nodir yn y wŷs Cyngor dyddiedig Dydd Gwener, 19 Hydref 2018.

Yn bresennol: Y Cynghorydd Sir Dianne Rees (Arglwydd Faer)

Cynghorwyr Sir Ahmed, Asghar Ali, Dilwar Ali, Berman, Bowden, Bowen-Thomson, Boyle, Bradbury, Bridgeman, Burke-Davies, Carter, Cowan, Cunnah, Davies, De'Ath, Derbyshire, Driscoll, Ebrahim, Elsmore, Ford, Goddard, Goodway, Gordon, Henshaw, Gavin Hill-John, Philippa Hill-John, Hinchey, Howells, Hudson, Jacobsen, Jenkins, Jones-Pritchard, Keith Jones, Owen Jones, Kelloway, Lancaster, Lay, Lent, Mackie, McEvoy, McGarry, McKerlich, Merry, Michael, Molik, Morgan, Murphy, Naughton, Owen, Parkhill, Jackie Parry, Keith Parry, Patel, Phillips, Robson, Sandrey, Sattar, Singh, Stubbs, Taylor, Graham Thomas, Huw Thomas, Lynda Thorne, Walker, Weaver, Wild, Williams, Wong a/ac Wood

78 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Daeth ymddiheuriadau am absenoldeb i law gan y Cynghorydd Bale, Councillors Bale, Congreve, Joyce, Lister a Simmons.

79 : DATGAN BUDDIANNAU

Gwnaed y datganiadau o fuddiant canlynol yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau. -

| **Cynghorydd** | **Eitem** | **Buddiant** |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd Bowden | Eitem 8 - Adroddiad Llesiant Blynyddol Statudol 2017-18 | Buddiant Personol yn sgil derbyn Gwasanaethau Teleofal |
| Y Cynghorydd Hudson | Eitem 8 - Adroddiad Llesiant Blynyddol Statudol 2017-18<br>Eitem 9 - Aelod Cabinet, Gofal Cymdeithasol. Iechyd a Llesiant – Datganiad. | Buddiant personol gan fod aelod o’r teulu’n derbyn gwasanaethau gofal cymdeithasol. |

80 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Medi 2018 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

81 : CWESTIYNAU CYHOEDDUS

Cwestiwn gan y Cyhoedd - Mr Tim London
Pa adnoddau ychwanegol a gaiff eu rhoi ar waith gan y Cyngor (os o gwbl) o ran gorfodi'r Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus (GDMC) fel y mae'n ymwneud â rheoli chŵn a sut caiff y rhain eu hariannu?

Ateb – Y Cynghorydd Michael
Dim ond newydd gau y mae'r ymgynghoriad ar y cynnig i gyflwyno GDMC mewn perthynas â rheoli cŵn. Mae'r cwestiwn p'un ai a gaiff unrhyw adnoddau ychwanegol eu darparu eu hystyried fel rhan o adroddiad y bwriedir ei gyflwyno i'r Cabinet yn y dyfodol ac, os bydd angen, fel rhan o broses cyllideb y Cyngor ar gyfer 2019/20.

Cwestiwn Atoddol – Mr Tim London
Rwy'n croesawu'r cyhoeddiad diweddar iawn gan y Cynghorydd Bradbury ar y GDMC rheoli cŵn.

A fydd y Cyngor nawr yn adolygu'r cynnig er mwyn adlewyrchu hynny ac yn rhoi adnoddau ar waith i dargedu'r sawl sy'n mynd mor bell â chyflawni troseddu mewn perthynas â pheidio â chasglu baw eu cŵn yn hytrach na'r sawl sy'n cydymffurfio â'r gyfraith?

Ateb – Y Cynghorydd Michael
Gan fod yr ymgynghoriad newydd orffen, rwy'n credu mai'r peth gorau i'w wneud ydy gwerthuso'r ymgynghoriad ac wedyn bwrw ymlaen â rhoi camau gweithredu ar waith. Rwy'n credu bod y rhan o'r ymgynghoriad y mae pawb yn pryderu amdano, yn ddim ond un rhan o ymgynghoriad eang iawn. Byddwn yn edrych ar y canlyniadau a chamau ac yn ystyried y ffordd orau i weithredu.

Cwestiwn gan y Cyhoedd – Mr Charles Allen
Mewn ymdrech i leihau gwastraff plastig a gwneud Caerdydd yn ddinas sy'n fwy ecogyfeillgar, a fyddech chi'n ystyried gosod pistylloedd dŵr yfed yng nghanol y ddinas?

Ateb – Y Cynghorydd Michael
Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i helpu i wneud Caerdydd yn ddinas ecogyfeillgar ac wedi llunio cynllun gweithredu mewn perthynas â phlastigau untro, â'r nod o'i hyflwyno gerbron y Cabinet fis nesaf. Mae'r cynllun gweithredu drafft yn ystyried darparu pistylloedd yfed a gorsafoedd pwrpasol i ail-lenwi poteli dŵr.

Mae'r ymgyrch Ail-lenwi, a ddechreuwyd gan City to Sea ym Mryste ym 2015, wedi arwain at roi mwy na 60 o gynlluniau Ail-lenwi ar waith ledled y DU. Mae'r cynllun yn cynnwys gofyn i fusnesau arddangos sticeri 'Ail-lenwi' yn eu ffenestri i roi gwybod i bobl eu bod yn cynnig dŵr tap am ddim. Maen nhw bellach wedi datblygu App, sydd ar gael drwy Refill.Wales sy'n cynnig gwybodaeth am leoliadau'r gorsafoedd Ail-lenwi.

Yng Nghaerdydd ar hyn o bryd mae gennym 72 o orsafoedd sy'n amrywio o gwmnïau cydwladol megis Starbucks ac eraill i Hybiau, Clybiau a Llyfrgelloedd. Ar y cyd â Llywodraeth Cymru, mae gennym gynlluniau ar y gweill i wneud cyhoeddiad

cyn bo hir gan fod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau mai Cymru yw cenedl Ail-lenwi gyntaf y byd ac mae’r Cyngor yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i helpu i hyrwyddo cynllun Ail-lenwi Cymru fis nesaf.

Cwestiwn gan y Cyhoedd - Mr Adam Johannes
Am flynyddoedd mae grwpiau ar lawr gwlad wedi bod yn dosbarthu bwyd am ddim yng Nghanol Dinas Caerdydd. Yn ddiweddar mae sawl grŵp wedi dweud bod y Cyngor wedi gofyn iddyn nhw symud o'u lleoliadau arferol yng nghanol y ddinas i ardaloedd lle mae'r gwirfoddolwyr yn teimlo'n anniogel ac yn agored i niwed ynddyn nhw. Mae un grŵp y gofynnwyd iddo symud wedi bod yn gweini bwyd unwaith yr wythnos yn yr un lleoliad am bron i ddegawd.

Mae’r projectau dan sylw wedi dod yn bwysicach fyth yn sgil y cynnydd yn nifer y bobl sy'n wynebu tlodi enbyd, gan gynnwys pobl sy'n cysgu allan ar y stryd a cheiswyr lloches. Mae’r bwyd a gynigir gan y gwirfoddolwyr yn un o ychydig iawn o gysuron y gall y bobl hyn edrych ymlaen ato, yn enwedig wrth i’r tywydd oeri pan fo pryd poeth weithiau yn llythrennol yr oll sydd ei angen i achub bywydau.

Ar y cyfryngau cymdeithasol mae pobl wedi bod yn mynegi eu pryderon gan ddweud ‘ni ddylai gwirfoddolwyr gael eu trin fel niwsans gan Gyngor Caerdydd a'u hanfon ymaith. *Dylid eu cefnogi a’u cymeradwyo am eu haelioni'.*

Hoffem ni wybod y rheswm a’r rhesymeg dros ofyn i’r projectau dan sylw symud allan o ganol y ddinas a’r cyfiawnhad ffurfiol am y newid newydd hwn o ran polisi a dull gweithredu?

Ateb – Y Cynghorydd Thorne
Mae’n dda gweld cymaint o bobl wedi dod yma i gefnogi a dangos pa mor bwysig ydy'r mater hwn iddyn nhw.

Gallaf eich sicrhau na fu unrhyw newid anffafriol o ran polisi neu’r dull o ymdrin â grwpiau gwirfoddoli sy'n gweithredu yn y ddinas.

I’r gwrthwyneb, mae gan y Cyngor barch mawr tuag at y bobl sy’n cynnig cymorth i bobl sy’n agored i niwed gan roi o’u hamser eu hunain ac yn cydnabod y potensial o gydweithio mwy er mwyn ceisio ehangu ein huchelgais a darparu gwasanaethau sy'n gwneud hyd yn oed mwy o wahaniaeth.

Dangoswyd hyn mewn ddigwyddiad ar y cyd a gynhaliwyd yn Neuadd y Ddinas ym mis Mawrth 2018, a ddilynwyd gan fforymau sy'n mynd rhagddynt lle gwelir grwpiau gwirfoddol ochr yn ochr â chynrychiolwyr o’r sector statudol a thrydydd sector (gyda chynllun ar waith i ehangu a chynnwyd defnyddwyr gwasanaeth yn y dyfodol).

Mae’r cyfarfodydd hyn wedi cynnwys hyfforddiant ymwybyddiaeth ar y cyd a thrafodaethau buddiol gyda golwg ar ddatblygu mwy o gyfleoedd i bobl sy'n ddigartref. Mae’r rhain yn cynnwys sefydlu cynlluniau cyfeillgarwch a mentora cyfoedion, hyfforddiant i mewn i waith, project celfyddydol uchelgeisiol a llu o wasanaethau eraill.

Nid yw’r Cyngor wedi rhoi unrhyw gamau ffurfiol ar waith i symud unrhyw grŵp. Fodd bynnag, rwy’n ymwybodol o gais a wnaed i un grŵp i ystyried symud yn sgil nifer fawr iawn o gwynion bod y safle presennol yn peri rhwystr i'r cyhoedd, yn ogystal â phroblemau'n ymwneud â gormod o lawer o wastraff yn cael ei adael ar y safle.

Byddem yn gobeithio bod pawb yn cydnabod yr angen i gydbwyso anghenion yr holl bobl sy’n defnyddio canol y ddinas a chytunodd y grŵp dan sylw i roi cynnig ar ddefnyddio safle arall. Ar yr un pryd, drwy’r fforymau y cyfeiriais atyn nhw, cynigiwyd hyfforddiant hylendid bwyd am ddim a’r gallu i fanteisio ar wiriadau’r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd i’r grŵp yma (ynghyd ag eraill) pan fyddan nhw’n recriwtio gwirfoddolwyr.

Yn olaf, ochr yn ochr ag ystod eang o wahanol sefydliadau ac unigolion, mae Cyngor Caerdydd wedi bod yn rhan o’r gwaith o ddatblygu Siarter y Digartref ar gyfer y Ddinas. Mae’r Siarter yn nodi bod mynd i’r afael â digartrefedd yn darged y gall pawb gyfrannu ato.  Mae’n debyg iawn i’r hyn a ddefnyddir ym Manceinion ac os edrychwch chi ar wefan Manceinion gallwch ei weld yno.

<u>Cwestiynau Atodol – Mr Adam Johannes</u>
Cyhoeddwyd yn y wasg y bydd FOR Cardiff (Ardal Gwella Busnes Caerdydd gynt (ADB)), consortiwm busnes preifat, yn ariannu ac yn hurio dau Blismon yn benodol i dargedu cardotwyr a phobl ar y stryd a byddwch eisoes yn gwybod bod llythyr wedi'i gyhoeddi ym mhapur South Wales Echo gan Aelodau Cynulliad fel Julie Morgan ac arweinwyr Undebau Llafur yn mynegi pryder am hyn.

Dydych chi ddim yn meddwl ei bod yn eithaf bechingalw bod ein heddlu ni yn gweithredu fel cwmni preifat y gellir ei hurio gan bobl sy’n ymwneud â busnesau i dargedu pobl y maen nhw’n eu hystyried sy’n niwsans, ac a fyddech chi’n annog FOR Cardiff, yn hytrach na hurio ac ariannu dau Blismon, i ariannu projectau sy’n helpu’r digartref yn hytrach na’u poenydio?

<u>Ateb – Y Cynghorydd Thorne</u>
Mae FOR Cardiff yn gweithio gyda’r Cyngor a’r holl sefydliadau gwirfoddol eraill yng Nghaerdydd i edrych ar y problemau sy’n gysylltiedig â digartrefedd a cheisio helpu i fynd i'r afael â nhw yn ogystal â phroblemau o ran diogelwch yng nghanol y ddinas.

Pan oeddwn i y tu allan cyn y cyfarfod roedd un o’m cydweithwyr yn siarad ag aelod o’ch grŵp a oedd yn sôn am aflonyddu ar ran yr heddlu, roedd yna berson digartref yno a ddywedodd nad oedd yr heddlu yn aflonyddu arnyn nhw. Rydyn ni’n cydweithio gyda’r heddlu ac yn ceisio sicrhau diogelwch unigolion digartref a phobl sy’n defnyddio canol y ddinas a thra roeddem yn siarad cefais wybod hefyd sut mae meddwon ar y penwythnos yn pi-pi dros bobl ddigartref.  Felly mae FOR Cardiff wedi ariannu dau Blismon er mwyn sicrhau bod gennym ni Blismyn penodedig ac maen nhw’n gweithio gyda'r tîm Allgymorth a'r gwirfoddolwyr -  a nod y cyfan ydy sicrhau bod canol dinas Caerdydd yn lle diogel, boed hynny i'r digartref sy'n cysgu ar y stryd, neu’r bobl hynny sy’n ymweld â chanol y ddinas er mwyn pleser.

82 : DEISEBAU

Daeth y deisebau canlynol i law’r Cyngor Llawn:

| Cynghorydd | Nifer y llofnodion | Pwnc |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd Mike Phillips | Mwy na 16,000 o drigolion | Gwrthwynebu'r cynigion ar gyfer GDMC yn ymwneud â Rheoli Cŵn yng Nghaerdydd |
| Y Cynghorydd Lee Bridgeman | 377 o drigolion | Gwrthwynebu cau Ysgol Gynradd Glan yr Afon yn Llanrhymni |

83 : CYHOEDDIADAU'R ARGLWYDD FAER

Llongyfarchiadau
Llongyfarchodd yr Arglwydd Faer yr Arweinydd, y Cynghorydd Huw Thomas ar ei briodas â Charlotte ar 13 Hydref, ac ar ran y Cyngor, dymunodd y gorau iddyn nhw ar gyfer y dyfodol.

Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio
Croesawodd yr Arglwydd Faer Mr Ian Arundale, Cadeirydd Pwyllgor Archwilio'r Cyngor i'r cyfarfod i gyfwlyno Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor.

Digwyddiadau
Mae manylion am http://cardiff.moderngov.co.uk/mgAi.aspx?ID=14005&LLL=0 ers y cyfarfod diwethaf wedi'i gyhoeddi ar y wefan. Roedd yr Arglwydd Faer yn falch o adrodd bod ychydig dros £49,000 wedi'i godi ar gyfer ei helusen enwebedig - Noah's Ark Tiny Lives Appeal. Diolchodd yr Arglwydd Faer i'r Aelodau Etholedig a swyddogion y Cyngor am eu cymorth parhaus ac yn enwedig i'r Cynghorydd Stubb a gododd fwy na £700 drwy gystadlu yn Ras Hanner Marathon Caerdydd, a chyflogeion y Gyfarwyddiaeth Addysg a gododd fwy na £4,000 yn dringo Pen y Fan.

Cydnabyddiaeth a Gwobrau
Llongyfarchodd yr Arglwydd Faer yr holl bobl a dderbyniodd wobrau neu a gymerodd ran mewn mentrau ers y cyfarfod diwethaf. Mae manylion am y rhain wedi'u nodi yn ei hadroddiad.

84 : ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR ARCHWILIO 2017/18

Roedd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio, Mr Ian Arundale, yn falch o gyflwyno Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio ar gyfer 2018/19 sy'n cyflwyno golwg cyffredinol ar y gwaith a gyflawnwyd gan y Pwyllgor dros y 12 mis. Tynnodd y Cadeirydd sylw at feysydd yn yr adroddiad, yn benodol:

- effeithiolrwydd llywodraethu, rheoli risg a rheolaethau yn y Cyngor; gweithdrefnau rheoli risg a rheoli'r trysorlys a chraffu ar y datganiad cyfrifon a llywio Datganiad Llywodraethu Cyffredinol y Cyngor 2017/18.
- sefyllfa gyllidebol y Cyngor a monitro'r gyllideb; gwydnwch ariannol y Cyngor a'r sefyllfa ariannol gyffredinol yn wyneb yr her

o adnoddau sy’n prinhau’n gyson.

- Ymdriniwyd â phryderon a fynegwyd ar yr arbedion nas sicrhawyd a gorwariant sylweddol yn y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol pan ddaeth i gyfarfod y Pwyllgor i roi trosolwg o'r sicrwydd o ran llywodraethu a rheoli yn y gyfarwyddiaeth.
- Croesawodd y Pwyllgor y trosolwg ar yr holl adroddiadau archwilio mewnol a'r cyfle i adolygu'r rheiny a farciwyd yn goch neu ambr, yr argymhellion archwilio ac ymateb y rheolwyr mewn cysylltiad â nhw yn ogystal â'r camau a gwblhawyd neu sydd eto i'w cwblhau.
- Yn 2017/18 derbyniodd y Cyngor ei archwiliad allanol 5 mlynedd ar y swyddogaeth archwilio mewnol sydd wedi’i gwblhau ac nad oedd yn tynnu sylw at unrhyw broblemau.
- Roedd y Pwyllgor yn falch o gael cyflwyniadau gan bob un o'r prif Gyfarwyddwyr ar faterion yn ymwneud â rheoli, llywodraethu a risgiau yn eu Cyfarwyddiaethau a oedd yn galluogi'r Pwyllgor i holi ac ymchwilio yn fanwl i rai ohonynt mewn cysylltiad â materion megis Llywodraethu Ysgolion a monitro diffygion a gwarged; contractio trefniadau monitro ar gyfer Gwasanaethau Iechyd; rheoli Iechyd a Diogelwch a chawsant eu sicrhau na fu unrhyw dorri amodau statudol; ac asedau ac adeiladau.
- Yng nghanlyniadau gweithdy hunanasesu’r Pwyllgor ei hun a gyflawnwyd ym mis Mawrth 2018 nodwyd rhai meysydd i’w gwella a oedd yn cynnwys yr angen i’r Cyngor ymgysylltu â rhanddeiliaid a phartneriaid drwy lunio Cynllun Gweithredu, ymgysylltu drwy rwydweithio â Phwyllgorau Archwilio eraill, ac o ran adeiladu ar y wybodaeth a sgiliau sydd gennym yn y Pwyllgor ar hyn o bryd.

Diolchodd y Cadeirydd i’w gyd Aelodau Pwyllgor, Aelodau Annibynnol, yr Is-gadeirydd, y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau a’i swyddogion am y wybodaeth a’r arbenigedd y maen nhw'n dod gyda nhw i’r cyfarfodydd a'u cyfraniad gwerthfawr i waith y Pwyllgor Archwilio. Croesawodd y Cadeirydd y mewnbwn gan Swyddfa Archwilio Cymru a’u hadborth ar archwiliadau ac adroddiadau rhanbarthol a chenedlaethol.

Cadarnhaodd y Cadeirydd mai barn y Pwyllgor Archwilio, yn seiliedig ar y dystiolaeth a gyflwynwyd, oedd bod gan y Cyngor, gan fwyaf, reolaeth ariannol a threfniadau llywodraethu cadarn ar waith a bod risgiau strategol o ran yr heriau gwirioneddol i'r Cyngor yn cael eu nodi a'u hadolygu yn rheolaidd.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer gwestiynau ar yr adroddiad blynyddol a chodwyd ac ymatebwyd i faterion yn ymwneud a’r meysydd canlynol:

- Llywodraethu Ysgolion a diffygion a gwarged cyllidebau Ysgolion a'r angen am gynllunio strategol a llywodraethu cadarn a rheolaeth ariannol a thryloywder.
- Pwysigrwydd rhannu arfer da ledled cyfarwyddiaethau.
- Archwiliadau mewnol ysgolion a modelu a pholisïau y gellir eu

rhannu â Llywodraethwyr Ysgolion.

- Ymchwiliad CThEM i faterion gwastraff sy'n mynd rhagddo ac mae'r Cyngor wedi cael gwybodaeth ar bob cam ond ni fyddai'n dymuno effeithio ar ganlyniad yr ymchwiliad presennol.
- Y sefyllfa ariannol a risgiau i'r Cyngor mewn perthynas ag alldro Bws Caerdydd y llynedd.
- Cydnabyddiaeth yn yr adroddiad o ran gwella'r trefniadau llywodraethu sydd bellach ar waith yn y Gwasanaethau Cymdeithasol a chydnabod gwariant nas cynlluniwyd. Byddai'r Pwyllgor hefyd yn adolygu'r strwythur rheoli newydd.
- Teimlwyd bod adnoddau digonol wedi'u sicrhau ar gyfer y Pwyllgor i gefnogi ei rôl ac y byddai'r hunanasesiad ar gyfer y flwyddyn sydd ohoni fwy na thebyg yn adlewyrchu rhai newidiadau diweddar yn well, gan gynnwys penodi Rheolwr Archwilio i'r swydd wag.

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio ar gyfer 2017 - 18.

85 : ADRODDIAD LLESIANT BLYNYDDOL STATUDOL 2017-18

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros faterion Ariannol, Moderneiddio a Pherfformiad yr Adroddiad Blynyddol Statudol ar Les 2017-18 sy'n ofynnol dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 i'w gyhoeddi erbyn 31 Hydref 2018 yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Yr enw blaenorol ar yr Adroddiad Blynyddol oedd yr Adroddiad Gwella Statudol.

Eiliwyd yr adroddiad gan Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Huw Thomas.

Daeth un diwygiad i law mewn cysylltiad â'r argymhelliad yn yr adroddiad a gwahoddiad y Cynghorydd Berman i gynnig y diwygiad a eiliwyd gan y Cynghorydd Boyle.

Gofynnodd yr Arglwydd Faer am drafodaeth ar yr adroddiad a dyma'r sylwadau a ddeilliodd ohoni:

- Diogelu cymunedau amrywiol yn y ddinas.
- lefelau absenoldeb salwch parhaus ymhlith gweithlu'r Cyngor.
- pwysigrwydd cyfrifoldebau'r Cyngor ac Aelodau Etholedig fel Rhieni Corfforaethol o ran cefnogi plant a phobl ifanc a sicrhau bod cyfleoedd ac anoddau ar gael i alluogi pobl ifanc i gyflawni a rhagori yng Nghaerdydd.
- cydnabyddiaeth gan y Pwyllgor Adolygu Polisi a Pherfformiad bod cynnydd wedi'i wneud ar berfformiad a bod y Cyngor ar siwrnai a bod angen gwneud mwy.
- y cyflawniadau, er gwaethaf heriau sylweddol a thorri cyllidebau, mewn meysydd megis darparu seilwaith seiclo; parciau a mannau gwyrddion.
- nid oedd yr adroddiad yn mynd i'r afael yn llawn â materion a phryderon a nodwyd gan drigolion.

- pryderon yn ymwneud â pherfformiad yn erbyn y Cynllun Datblygu Lleol.
- methiant Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) o ran cefnogi plant ag anableddau; Diogelu a Phlant sy'n Derbyn Gofal.
- pryderon o ran niferoedd a chostau'r strwythur Uwch Reolwyr yng Nghaerdydd.
- croesawyd y gwelliannau o ran cyflawniad plant yng Nghyfnod Allweddol 2 a 4.
- materion yn ymwneud â gorfodi yn enwedig mewn perthynas â baw cŵn a mater a godwyd mewn cysylltiad a phroses ymgynghori'r GDMC.

Ymatebodd yr Aelod Cabinet i faterion a godwyd gan ganmol holl swyddogion y Cyngor am eu gwaith caled a'u hymroddiad o ran darparu gwasanaethau a pherfformio er gwaethaf yr holl heriau ariannol a'r galw y maen nhw'n ei hwynebu.

Symudodd yr Arglwydd Faer ymlaen i'r bleidlais ar y diwygiad a gynigiwyd gan y Cynghorydd Berman a chofnodwyd y bleidlais ganlynol:

| | |
|---|---|
| O blaid | Cynghorwyr Sir Ahmed, Asghar Ali, Dilwar Ali, Berman, Bowden, Bowen-Thomson, Boyle, Bradbury, Bridgeman, Burke-Davies, Carter, Cowan, Cunnah, Davies, De'Ath, Derbyshire, Driscoll, Ebrahim, Elsmore, Ford, Goddard, Goodway, Gordon, Henshaw, Gavin Hill-John, Philippa Hill-John, Hinchey, Howells, Hudson, Jacobsen, Jenkins, Jones-Pritchard, Keith Jones, Owen Jones, Kelloway, Lancaster, Lay, Lent, Mackie, McEvoy, McGarry, McKerlich, Merry, Michael, Molik, Morgan, Murphy, Naughton, Owen, Parkhill, Jackie Parry, Keith Parry, Patel, Phillips, Robson, Sandrey, Sattar, Singh, Stubbs, Taylor, Graham Thomas, Huw Thomas, Lynda Thorne, Walker, Weaver, Wild, Williams, Wong a/ac Wood<br>(31) |
| Yn erbyn | Y Cynghorwyr Ahmed, Asghar Ali, Dilwar Ali, Berman, Bowden, Bowen-Thomson, Boyle, Bradbury, Bridgeman, Burke-Davies, Carter, Cowan, Cunnah, Davies, De'Ath, Derbyshire, Driscoll, Ebrahim, Elsmore, Ford, Goddard, Goodway, Gordon, Henshaw, Gavin Hill-John, Philippa Hill-John, Hinchey, Howells, Hudson, Jacobsen, Jenkins, Jones-Pritchard, Keith Jones, Owen Jones, Kelloway, Lancaster, Lay, Lent, Mackie, McEvoy, McGarry, McKerlich, Merry, Michael, Molik, Morgan, Murphy, Naughton, Owen, Parkhill, Jackie Parry, Keith Parry, Patel, Phillips, Robson, Sandrey, Sattar, Singh, Stubbs, Taylor, Graham Thomas, Huw Thomas, Lynda Thorne, Walker, Weaver, Wild, Williams, Wong a/ac Wood |
| Ddim yn bresennol | Nid oedd y Cyng. McEvoy yn bresennol yn ystod y bleidlais |

GWRTHODWYD y Diwygiad.

Galwodd yr Arlgwydd Faer am bleidlais drwy godi llaw ar yr argymhelliad fel y nodwyd yn yr adroddiad. CYMERADWYWYD yr argymhelliad.

PENDERFYNWYD - Y dylid cymeradwyo'r Adroddiad Llesiant Statudol Blynyddol 2017-18.

86 : DATGANIADAU GAN YR ARWEINYDD AC AELOD CABINET

Daeth y datganiadau canlynol i law:

1. The Leader’s Statement

   Ymatebodd yr Arweinydd i gwestiynau a godwyd ar y Setliad Cyllid Llywodraeth Leol Dros Dro o £1.7 miliwn o arian ychwanegol – sef cynnydd o 0.4%. Dywedodd yr Arweinydd na fyddai’r cynnydd hwn yn lliniaru’r pwysau ariannol a diffyg sylweddol a ragwelir fel y nodwyd yn Strategaeth Cyllideb y Cyngor a’r heriau parhaus.

2. The Deputy Leader and Cabinet Member Education, Employment and Skills Statement

   Ymatebodd y Dirprwy Arweinydd i gwestiynau ar y canlynol:
   - Y cynlluniau o ran sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol a chynlluniau ar gyfer dyfodol darpariaeth Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) ledled y ddinas a nodwyd yn y strategaeth AAA sy’n nodi’r mathau o ddarpariaeth sydd ar gael, ac a fydd ar gael i'r dyfodol, a'r hyn a gynigir drwy brojectau Ysgolion yr 21ain Ganrif/
   - Mynediad i’r Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau Ysgol a thystiolaeth sy’n dangos dros amser bod mwy a mwy o deuluoedd yn manteisio ar y ddarpariaeth honno.

3. Cabinet Member, Finance, Modernisation and Performance Statement
   Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau'n ymwneud â Cardiff App a hyrwyddo’r ap ymysg trigolion newydd a chynnwyd Cynghorwyr yn y gwaith o ddatblygu a diweddaru'r ap; ymgysylltu ar y cyfryngau cymdeithasol mewn cysylltiad ag ymgynghoriad y GDMC a phryderon a godwyd o ran cywirdeb y wybodaeth.

4. Cabinet Member, Housing & Communities Statement
   Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ar y canlynol:
   - Nifer y Tai Cyngor newydd y bwriedir hadeiladu yng Nghaerdydd;
   - yr amrywiol systemau datblygu sy’n cael eu defnyddio gan gynnwys system fodwlar ynni effeithlon;
   - p’un ai y gallai Cymdeithasau Tai elw o’r Gronfa’r Rhaglen Tai Arloesol.

Nododd yr Aelod Cabinet fod y cap ar gyllido'r gwaith o adeiladu tai newydd wedi'i godi a bod tai ar gyfer 2,177 o gartrefi wedi'i nodi.

- Gofynnwyd am ddiweddariad ar y gwaith o gyflwyno'r Hybiau Llesiant Cymunedol yng ngogledd y Ddinas ac mae cynnydd yn cael ei wneud a mae ymgynghoriadau â chymunedau ar y gweill ar gyfer mis Tachwedd;
- Problemau'n ymwneud ag Eiddo sy'n Wag yn yr Hirdymor ac ymdrechion i fwrw'r targed a system ar gyfer ailddefnyddio tai gwag.

Yn ystod y rhan hon ymatebodd yr Aelod Cabinet i Gwestiwn Llafar gan y Cynghorydd Hudson a fanylir yng Nghofion Rhif 89.

5. Cabinet Member, Clean Streets, Recycling & Environment Statement
Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ar Gartref Cŵn Caerdydd a gwaith y tîm a gwirfoddolwyr a'r broses o ddod o hyd i gyfleuster newydd ar y cyd ag elusennau eraill sy'n ymwneud â chŵn.

6. Cabinet Member, Children & Families Statement
Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ar y dulliau newydd mewn cysylltiad â Help a Chymorth i Deuluoedd, yn enwedig y dull o wella cyflawniad addysgu ac uchelgais plant a phobl ifanc; y gefnogaeth a roddir i lesiant plant sy'n derbyn gofal neu ar fin gael eu derbyn i'r system; cafodd Cynghorwyr eu sicrhau y bydd y pwyllgor craffu yn cael cyfle i edrych ar y dull newydd.

Gofynnwyd am ddiweddariad ar y swydd Cyfarwyddwr Cynorthwyol - Gwasanaethau Plant y nodir ei bod yn cael ei llenwi dros dro ar yr un telerau a'r deiliad dros dro blaenorol.

7. Cabinet Member, Social Care. Health & Well-being Statement
Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau'n ymwneud â chymorth i bobl hŷn a'r gwasanaethau dydd demensia sydd newydd gael eu hintegreiddio yng Nghanolfan Ddydd Pobl Hŷn Grand Avenue a adnewyddwyd yn ddiweddar, a'r Gwasanaeth Dydd yn Nhremorfa sydd ill dau yn ddarpariaethau ardderchog sy'n cynnig y cymorth arbenigol hwnnw i bobl hŷn gan fynd i'r afael â phroblemau megis unigedd. Gofynnwyd i'r Aelod Cabinet am gynlluniau ar gyfer darpariaeth debyg yng ngogledd y Ddinas. Nodwyd bod y ddarpariaeth canolfan ddydd presennol yn agored i bawb yng Nghaerdydd.

Roedd yr Aelod Cabinet yn falch o gydnabod gwaith y Cynghorydd Molik mewn cysylltiad â Ffair Iechyd Flynyddol Iechyd Meddwl a Llesiant Cymunedau Lleiafrifoedd Ethnig ond roedd yn poeni am y cymorth ariannol a fyddai ar gael i gefnogi'r fath ddigwyddiadau yn y dyfodol. Materion yn ymwneud â chefnogi Cymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig a sefydlu canolfan ddydd gymunedol ar gyfer cymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yn debyg iawn i Ganolfan Africa yn Birmingham.

8. Cabinet Member, Strategic Planning & Transport Statement

Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ar y canlynol:

- Ansawdd Aer ac esboniad am yr adroddiadau ac astudiaethau sy'n cael eu paratoi ac amserlenni. Cynigiondd yr Aelod Cabinet i esbonio'r sefyllfa i Aelodau.
- Ansawdd Aer - mae'r gwaith o fonitro'r pedair ansawdd yn cydymffurfio â'r safonau Ewropeaidd ac mae'r Aelod Cabinet o'r farn fod cyflwyno'r bysys Euro 6 wedi helpu i leihau ansawdd aer gwael.
- Cynllun Next Bike a'i gyflwyno yn Nhongwynlais; a'r angen i edrych ar gyllid ychwanegol; darparu beiciau yn yr orsaf beiciau; gorsaf yn Nhŷ'r Cwmnïau. Nododd yr Aelod Cabinet Member mai'r nod oedd cyflwyno 50 o safleoedd pellach unwaith y bydd cyllid wedi'i nodi.
- Perthynas a thrafodaeth gyda Trafnidiaeth Cymru a chynlluniau i'r dyfodol o ran paratoi ar gyfer sefydlu cymunedau newydd yng ngogledd Caerdydd.
- Gwasanaeth Trenau a perthynas – lobïo'n galed i sicrhau newidiadau i Wasanaeth Trenau'r Cymoedd.
- Llwybrau Beicio Ar Wahân a'r angen i'w glanhau a'u cadw mewn cyflwr da i sicrhau y gellir eu defnyddio. Nododd yr Aelod Cabinet bod angen i addasu a chymeradwyo'r trefniadau glanhau ac atgyweirio ar gyfer llwybrau Beicio.

9. Cabinet Member, Investment & Development Statement

Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ar y canlynol:

- Data Poblogaeth Diwrnod Gwaith Caerdydd yn benodol mewn perthynas â'i ddatganiad bod hyn yn adlewyrchiad o'r hyder sydd gan fusnesau yn y ddinas ers sefydlu'r weinyddiaeth newydd yn 2017.
- Nid yw'r ymdrechion sy'n cael eu gwneud yng Nghaerdydd i gynyddu cyflogaeth a busnesau wedi arwain at gynnydd o ran y dyraniad ardrethi busnes i Gaerdydd.
- Sicrwydd gan lywodraeth y DU y bydd lefel y Gronfa Ffyniant Cyffredin yr un fath neu'n uwch na Chronfa Strwythurol y DU ac os caiff ei gostwng bydd yn cael effaith andwyol ar Gaerdydd.
- Sefydlu sefydliad busnes yng Nghaerdydd. Cadarnhaodd yr Aelod Cabinet bod y Cyngor wedi bod yn disgwyl am sefydlu corff ar lefel y Fargen Ddinesig ond yn y flwyddyn newydd y byddai'r Aelod Cabinet yn bwrw ymlaen â chynlluniau i sefydlu fforwm busnes ar gyfer y Cabinet.

10. Cabinet Member, Culture & Leisure Statement

Nid oedd unrhyw gwestiynau ar gyfer yr Aelod Cabinet.

87 : CYNNIG 1

Dywedodd yr Arglwydd Faer fod hysbysiad o gynnig gan y Cynghorydd Philippa Hill-John a eiliwyd gan y Cynghorydd Joel Williams wedi dod i law i'w ystyried ac wedi'i gynnwys yn y Gwysion ar gyfer y cyfarfod. Roedd dau ddiwygiad wedi dod i law.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer y Cynghorydd Philippa Hill-John i gyflwyno'r cynnig fel a ganlyn:

O ystyried yr effaith fawr a gaiff proses y CDLl ar y ddinas dros y 10 mlynedd nesaf, rydym yn galw ar y cyngor hwn i ystyried a chymeradwyo'r cynnig fel a ganlyn:

- Dylai'r Adroddiad Monitro CDLl blynyddol ddod gerbron y cyngor llawn i'w ystyried a'i adolygu. Dylai fanylu ar y cynnydd yn erbyn y targedau a osodwyd, y tai a werthwyd ac a yw'r trothwyon ar gyfer y mesurau seilwaith allweddol yn cael eu cyrraedd; a

- Dylid mabwysiadu a gweithredu strategaeth gyfathrebu drosfwaol fel modd o roi gwybod i breswylwyr am gamau allweddol y CDLl, gan gynnwys pwynt gwybodaeth canolog i sicrhau tryloywder ac eglurder; a

- dylid neilltuo swyddog penodol i gydgysylltu a goruchwylio proses gyfan y CDLl ar gyfer y ddinas a dylai fod ar gael i gysylltu ag aelodau etholedig a chyrff cynrychioliadol; a

- dylid cynnal adolygiad ar unwaith i sicrhau bod cyfran o'r cartrefi newydd sy'n cael eu hadeiladu yn diwallu anghenion y boblogaeth hŷn sy'n cynyddu a bod polisïau ar waith i sicrhau bod tai fforddiadwy ar gael i'w prynu yn ogystal â'u rhentu; a

- dylid cynnwys adnewyddu'r lletem las yng Ngogledd a Gogledd-orllewin Caerdydd, a fydd yn dod i ben gyda'r LDP yn 2026; neu ddarparu llain las lawn newydd ar gyfer yr ardal hon, mewn unrhyw system gynllunio ranbarthol newydd er mwyn sicrhau bod y cefndir pwysig hwn yn cael ei gadw ym mhrifddinas Cymru am genedlaethau i ddod.

Eiliwyd yr Hysbysiad o Gynnig gan y Cynghorydd Joel Williams.

Diwygiad 1

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer y Cynghorydd Joe Carter i gynnig diwygiad 1 fel a ganlyn:

Dileu Pwyntiau Bwled 4 a 5 a gosod y 3 paragraff canlynol yn eu lle:

- Dylid cynnal adolygiad ar unwaith ar ddarparu gwahanol fathau o dai yn y ddinas, er mwyn sicrhau bod nifer y tai cymdeithasol yn cynyddu mewn ymateb i'r galw, bod y farchnad tai rhent preifat yn bodloni'r galw a bod nifer y tai cymdeithasol sydd ar gael ar gyfer llety byw â chymorth yn cael ei gynyddu;

- Caiff effeithiolrwydd y lletem las yng yng ngogledd a gogledd-orllewin Caerdydd ei adolygu ym 2026;

- Cyn cynnal yr adolygiad llawn cyntaf o'r cynllun, ailystyried y posibilrwydd o gynnwys cynigion gyda golwg ar reoli lleoliadau bwydydd siopau bwyd brys wrth ymyl ysgolion. Dylai hyn gynnwys lobïo Llywodraeth Cymru gyda golwg ar newid polisïau cynllunio Cymru, a fydd yn galluogi'r Cyngor i ystyried mabwysiad polisïau a allai alluogi ffactorau eraill, megis yr angen i ystyried nifer y siopau gwerthu bwyd brys sydd eisoes ar gael a lefelau gordewdra uchel, cyn rhoi caniatad i sefydlu siopau bwyd brys.

Eiliwyd Diwygiad 1 gan y Cynghorydd Rodney Berman.

Diwygiad 2

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer y Cynghorydd Caro Wild i gynnig diwygiad 2 fel a ganlyn:

Cyn y Cynnig dylid ychwanegu'r paragraff canlynol:

Mae disgwyl y boblogaeth Caerdydd gynyddu gan 90,000 yn unol â rhagfynegiadau swyddogion LIC/Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer y cyfnod 2014-2039, ac mae diffyg tai yn broblem sylweddol. Mabwysiadwyd y CDLl ym mis Ionawr 2016 i helpu Caerdydd i dyfu'n gynaliadwy, a gwarchod y ddinas rhag datblygiadau ad hoc yma ac acw. Cyflwynwyd yr ail adroddiad monitro blynyddol i'r Cabinet ym mis Medi 2018 gan ddangos cynnydd da yn erbyn yr 107 o ddangosyddion, heb unrhyw ddangosyddion coch.

Dylid dileu'r geiriau 'dylai' a rhoi 'yr adroddiad' yn ei le.

Pwynt Bwled 2 Llinell Gyntaf – Dylid dileu 'dylid mabwysiadu strategaeth cyfathrebu gyffredinol a'i rhoi ar waith fel dull' a rhoi 'Bwriedir paratoi dogfen sy'n rhwydd i'w darllen'.

Pwynt Bwled 2 – ychwanegu'r gair 'canolog' at y gair ar-lein

Dileu Pwyntiau Bwled 3, 4 a 5 a rhoi yn ei le

- sy'n parhau i gydnabod y gwaith caled ac arbenigedd a ddangosir gan Bennaeth Cynllunio'r Cyngor a'r Adran Gynllunio sy'n sicrhau eu bod nhw eu hunain ar gael i'r Aelodau Etholedig a chyrff cynrychioli bob dydd; a

- sy'n nodi y caiff y Strategaeth Tai ar gyfer Pobl Hŷn ei hystyried gan y Cabinet a'i chyflwyno gerbron y Cyngor llawn i'w thrafod ar ddechrau'r flwyddyn. Mae'r strategaeth yn seiliedig ar waith ymchwil annibynnol sydd eisoes wedi'i gyflawni i asesu anghenion tai a gofal y dyfodol ar draws pob math o ddeiliadaeth, ac sy'n llywio'r broses CDLl; ac

- sy'n nodi ymrwymiad Gweinyddiaeth y Cyngor hwn i'r lletem las. Hefyd, mae'r Cyngor hwn yn credu na ddylai unrhyw gynlluniau rhanbarthol yn y

dyfodol leihau gallu Caerdydd i warchod mannau gwyrddion ledled y ddinas.

Eiliwyd Cynnig 2 gan y Cynghorydd Keith Jones.

Gofynnodd yr Arglwydd Faer am drafodaeth ar y cynnig dan sylw. Yn ystod y drafodaeth cadarnhaodd y Cynghorydd Philippa Hill-John
nad oes yn derbyn y naill gynnig na’r llall. Ymatebodd y Cynghorydd Hill-John i faterion a godwyd yn ystod y drafodaeth.

Cynhaliwyd pleidlais ar yr eitem hon drwy godi llaw: -

Diwygiad 1Newid 1 fel y’i cynigwyd gan y Cynghorydd Carter. COLLWYD y bleidlais.

CYMERADWYWYD Diwygiad 2 fel y’i cynigwyd gan y Cynghorydd Wild.

Roedd y cynnig Annibynnol fel y'i cynigwyd gan y Cynghorydd Clark fel a ganlyn:

Mae disgwyl y boblogaeth Caerdydd gynyddu gan 90,000 yn unol â rhagfynegiadau swyddogion LIC/Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer y cyfnod 2014-2039, ac mae diffyg tai yn broblem sylweddol. Mabwysiadwyd y CDLl ym mis Ionawr 2016 i hyelpu sut y gall Caerdydd dyfu’n gynaliadwy, a gwarchod y ddinas rhag datblygiadau ad hoc yma ac acw. Cyflwynwyd yr ail adroddiad monitro blynyddol i’r Cabinet ym mis Medi 2018 gan ddangos cynnydd da yn erbyn yr 107 o ddangosyddion, heb unrhyw ddangosyddion coch.

O ystyried yr effaith fawr a gaiff proses y CDLl ar y ddinas dros y 10 mlynedd nesaf, rydym yn galw ar y cyngor hwn i ystyried a chymeradwyo'r cynnig fel a ganlyn:

- Dylai'r Adroddiad Monitro CDLl blynyddol ddod gerbron y cyngor llawn i'w ystyried a'i adolygu. Mae’r adroddiad yn cynnwys manylion am y cynnydd yn erbyn y targedau a osodwyd, y tai a werthwyd ac a yw'r trothwyon ar gyfer y mesurau seilwaith allweddol yn cael eu bwrw; a

- Bwriedir paratoi dogfen rwydd i’w darllen i sicrhau bod trigolion yn cael gwybodaeth am gyfnodau allweddol y CDLl, gan gynnwys pwynt gwybodaeth canolog ar-lein i sicrhau tryloywder ac eglurder; a

- sy’n parhau i gydnabod y gwaith caled ac arbenigedd a ddangosir gan Bennaeth Cynllunio'r Cyngor a’r Adran Gynllunio sy’n sicrhau eu bod nhw eu hunain ar gael i’r Aelodau Etholedig a chyrff cynrychioli bob dydd; a

- sy’n nodi y caiff y Strategaeth Tai ar gyfer Pobl Hŷn ei hystyried gan y Cabinet a’i chyflwyno gerbron y Cyngor llawn i’w thrafod ar ddechrau’r flwyddyn. Mae’r strategaeth yn seiliedig ar waith ymchwil annibynnol sydd eisoes wedi’i gyflawni i asesu anghenion tai a gofal y dyfodol ar draws pob math o ddeiliadaeth, ac sy’n llywio’r broses CDLl; ac

- sy’n nodi ymrwymiad Gweinyddiaeth y Cyngor hwn i’r lletem las. Hefyd, mae’r Cyngor hwn yn credu na ddylai unrhyw gynlluniau rhanbarthol yn y

dyfodol leihau gallu Caerdydd i warchod mannau gwyrddion ledled y ddinas.

Cynhaliwyd pleidlais ar y Cynnig Annibynnol.

Cymeradwywyd y cynnig Annibynnol.

88 : CYNNIG 2

Dywedodd yr Arglwydd Faer fod hysbysiad o gynnig a gynigiwyd gan y Cynghorydd Saeed Ebrahim ac a eiliwyd gan y Cynghorydd Bridgeman wedi dod i law i'w ystyried ac wedi'i gynnwys yn y Gwysion ar gyfer y cyfarfod. Ni dderbyniwyd unrhyw ddigwyddiadau.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer y Cynghorydd Saeed Ebrahim i wneud y cynnig fel a ganlyn:

Mae'r cyngor hwn yn galw ar y Cabinet i ystyried y ffordd orau y gall gefnogi'r unigolion hynny a'u teuluoedd a ymsefydlodd yng Nghaerdydd yn ystod y 1950au a'r 1960au a ddaeth yn adnabyddus fel y genhedlaeth Windrush, er mwyn iddynt gael yr un cyfleoedd â dinasyddion eraill Caerdydd o ran mynediad at y gwasanaethau a'r cyngor a ddarperir gan y Cyngor.

Cafodd y Cynnig ei eilio gan y Cynghorydd Lee Bridgeman

Gofynnodd yr Arglwydd Faer am drafodaeth ar y cynnig dan sylw. Ar ddiwedd y drafodaeth gwahoddwyd yr Aelod Cabinet Tai a Chymunedau i siarad. Ymatebodd y Cynghorydd Ebrahim i faterion a godwyd yn ystod y drafodaeth.

Cynhaliwyd pleidlais drwy godi llaw ar y Cynnig fel y cynigiwyd gan y

Cynghorydd Ebrahim a chafodd y Cynnig ei GYMERADWYO'N unfrydol.

89 : CWESTIYNAU LLAFAR

*Cyflwynwyd y cwestiwn at ateb hwn fel rhan o Ddatganiad yr Aelod Cabinet yn gynharach yn ystod y cyfarfod.*

Cwestiwn – Y Cynghorydd Hudson
Beth sy'n digwydd yn natblygiad PassivHaus yn Highfields, Y Mynydd Bychan nawr ei bod wedi'i brofi y bydd yn aneffeithiol ac yn ddrytach i barhau gyda'r project yn sgil y lleoliad diffygiol?

Ateb – Y Cynghorydd Thorne
Dydw i ddim yn gwybod am unrhyw adroddiad sy'n awgrymu bod y datblygiad PassivHaus yn Highfields yn aneffeithiol ac yn ddrytach oherwydd natur ddiffygiol cyfeiriad yr adeiladau. Yn wir, rydym yn dechrau gweithio ar y safle ym mis Ionawr.

Fel y cadarnhawyd yn fy natganiad, mae'r cynllun wedi cael cyllid gan Gronfa Tai Arloesol Llywodraeth Cymru, a fydd yn ein galluogi i brofi'r farchnad o ran gwerthu tai PassivHaus fforddiadwy yn breifat ar y safle hwnnw yn y Mynydd Byach.

Caiff y tai eu targedu at bobl sy'n prynu tŷ am y tro cyntaf a phobl hŷn – gan gynnig tai sy'n wirioneddol fforddiadwy i'w gwresogi a'u cynnal, helpu i fynd i'r afael â thlodi tanwydd a galluogi pobl i fyw'n annibynol.

Bydd y cynllun yn helpu i godi'r safon o ran cynnig tai o ansawdd, hynod ynni effeithlon yng Nghaerdydd, a fyddai'n rhywbeth y byddai pob un ohonom yn ei gefnogi – o ystyried yr angen am dai yn y ddinas.

<u>Cwestiwn Ategol – Y Cynghorydd Hudson</u>
Dydw i ddim yn credu bod y Cynghorydd wedi fy neall, mae'n dweud yma bod lleoliad y safle a'i allu i fanteisio i'r eithaf ar ynni'r haul - ni fydd y lleoliad yn gallu manteisio i'r eithaf ar ynni haul.

<u>Ateb – Y Cynghorydd Thorne</u>
Yn ôl fy swyddogion gwir yw na fydd y lleoliad yn effeithio ar y cynllun mewn cysylltiad â systemau Passivhaus ac rwy'n credu fy mod wedi ateb y cwestiwn yma o'r blaen i ymholwr cyhoeddus o'ch ward chi.

<u>Cwestiwn – Y Cynghorydd Naughton</u>
Gyda digwyddiadau'n ymwneud â thywydd garw yn fwy tebygol o effeithio ar newid yn yr hinsawdd, pa gynlluniau sydd gan y Cyngor i sicrhau y gall Caerdydd ymdopi â hinsawdd fwy eithafol yn y blynyddoedd i ddod?

<u>Ateb – Y Cynghorydd Michael</u>
O 7 Ionawr y flwyddyn nesaf, bydd rhaid i systemau draenio dŵr wyneb ym mhob datblygiad gydymffurfio â safonau cenedlae[th]ol gorfodol, y bydd rhaid iddyn nhw gael eu cymeradwyo gan Gyngor Caerdydd. Bydd hyn yn sicrhau datblygiadau gwydn gyda'r gofyniad i roi ystyriaeth i newid yn yr hinsawdd yn eu dyluniadau.

Bydd y gwaith parhaus o adolygu'r perygl o lifogydd yng Nghaerdydd yn helpu i nodi'r mannau sy'n wynebu gorlifoedd yn aml y mae angen rhoi ymyriadau ar waith ynddyn nhw. Bydd cynlluniau arfaethedig i liniaru llifogydd yn yr ardal sy'n cael ei datblygu yn rhoi ystyriaeth i newid yn yr hinsawdd, pan fo'n bosib.

Hefyd, mae Cynllun Amddiffyn Arfordir Caerdydd ar fin mynd trwy'r cam dylunio manwl. Bydd y project yn ymestyn o flaendraeth Rover Way i dome Ffordd Lamby, gan gynnwys Aber yr Afon Rhymni. Bydd hyn yn helpu i leihau a rheoli'r perygl o lifogydd arfordirol i bobl ac asedau yn yr ardal hon o dde-ddwyrain Caerdydd ar gyfer y 100 mlynedd nesaf, gan roi ystyriaeth newid yn yr hinsawdd a ragwelir yn y dyfodol.

<u>Cwestiwn Ategol – Y Cynghorydd Naughton</u>
All y Cyngor ymrwymo i lunio Strategaeth ddrafft ar sut i ymdrin ag effaith tywydd eithafol a'i gyflwyno yn un o gyfarfodydd y Cyngor yn ystod y tymor hwn?

<u>Ateb – Y Cynghorydd Michael</u>
Rwy'n credu bod y rhan fwyaf o bethau a wnawn yn cynnwys elfen o newid yn yr hinsawdd. Dydw i ddim yn siŵr os oes angen llunio polisi newydd, cyflawn ar wahân dim ond ar gyfer newid yn yr hinsawdd sy'n anodd ei ragweld, rwy'n credu ein bod

ni’n rhoi ystyriaeth i hynny yn y rhan fwyaf o bethau a wnawn, ond mi ofynna i am gyngor ar hynny a rhoi ateb i chi yn y man.

<u>Cwestiwn – Y Cynghorydd Owen Jones</u>
All yr Aelod Cabinet amlinellu sut mae’r Cyngor yn bwriadu mynd i’r afael â’r lefelau llygredd aer uchel o amgylch Ysgol Gynradd Tredegarville?

<u>Ateb – Y Cynghorydd Michael</u>
Ar ddechrau’r flwyddyn hon, dechreuodd y Cyngor fonitro ansawdd aer mewn nifer o ysgolion ledled Caerdydd i fesur lefelau Nitrogen Deuocsid. Roedd hyn yn cynnwys Ysgol Gynradd Tredegarville.

Caiff dau leoliad eu monitro yn yr ysgol – un yn nerbynfa’r ysgol ac un yn yr iard. Ar hyn o bryd y canlyniadau cyffredinol o ran Nitrogen Deuocsid yn y lleoliadau hyn yw 20 a 25 microgram fesul Metr Ciwbig o Aer yn y drefn honno ac ar hyn o bryd ystyrir bod y canlyniadau'n cydymffurfio â'r safon ansawdd aer o 40 Micrograms fesul Ciwbig Metr o Aer fel cyfartaledd cyffredinol.

Mae’r Cyngor hefyd wrthi’n cynnal astudiaeth o ddichonoldeb i asesu mesurau sy'n gallu sicrhau cydymffurfiaeth â gwerthoedd terfynau Nitrogen Deuocsid yn y cyfnod byrraf posibl. Bydd canlyniad yr astudiaeth hon yn nodi mesurau a ffefrir i wella ansawdd aer ledled Caerdydd, a ddylai arwain at welliannau pellach o ran ansawdd aer yn Ysgol Gynradd Tredegarville.

<u>Cwestiwn Ategol – Y Cynghorydd Owen Jones</u>
Mae’n bosib eu bod nhw o fewn terfyn diogel ond yn amlwg ysgol gynradd yw hon ac wrth ymyl ffordd mor fawr yng Nghaerdydd mae mesurau y dylen ni fod yn eu rhoi ar waith.

Ydyn ni’n ystyried mesurau fel llwyni neu atebion byr dymor nad ydyn nhw'n mynd i'r afael â'r broblem ei hun yn y bôn ond sy'n gwarchod diogelwch y myfyrwyr sydd yno?

<u>Ateb – Y Cynghorydd Michael</u>
Un o’r pethau yr ydym ni’n edrych arnyn nhw ac yn gweithio mewn partneriaeth â'r Brifysgol ac eraill arno yw Waliau Gwyrdd ac rydym yn ystyried peilota un yn yr ysgol hon. Rydym wedi gwneud llawer iawn o waith ar hwn ac rwy’n credu beth wnaf i yw trefnu bod y Cynghorwyr lleol yn cael eu galw i mewn ac y gallwn ni drafod ein cynlluniau.

<u>Cwestiwn – Y Cynghorydd Robson</u>
Faint o ddirwyon am faw cŵn gafodd eu cyflwyno gan Gyngor Caerdydd rhwng:

- Hydref 2015 – Medi 2016;
- Hydref 2016 – Medi 2017; a
- Hydref 2017 – Medi 2018.
- 

Sawl un o’r rhain oedd ym mharciau Caerdydd?

Ateb – Y Cynghorydd Michael
Mae Swyddogion Gorfodi yn cynnal patrolau mewn ardaloedd ledled y ddinas i orfodi troseddau pan fo perchenogion cŵn yn peidio â chael gwared baw eu cŵn. Fodd bynnag, mae baw cŵn yn drosedd anodd ei gorfodi, gan fod rhaid i chi ddal rhywun yn y fan a'r lle cyn y gallwch chi gyflwyno Hysbysiad Cosb Benodedig.
Yn 2015/16, roedd nifer yr Hysbysiadau Cosb Benodedig a gyflwynwyd yn 49; o'r rheiny cyflwynwyd 11 gan geidwaid y parciau.

Yn 2016/17, roedd yn 28; a chyflwynwyd 24 o'r rheiny gan geidwaid y parciau.
Yn 2017/18, roedd yn 19; a chyflwynwyd 16 o'r rheiny gan geidwaid y parciau.

Cwestiwn Ategol – Y Cynghorydd Robson
Mae'n rhaid i mi gyfaddef bod hwn yn ddata diddorol, mae'n ddata gwahanol i'r hwnnw welais i drwy gais Rhyddid Gwybodaeth, ond hyd yn oed wedyn mae'r ffigyrau yn isel.

Rwy'n derbyn y pwynt ei bod hi weithiau ynn anodd dal pobl yn peidio â chodi baw eu ci, ond yn yr un modd, yr ateb i hynny felly yw nid cyflwyno GDMC yn gwahardd cŵn o bob cae chwarae yn ystod y rhan fwyaf o adegau yn y flwyddyn o reidrwydd sef yr hyn yr oedd yr Aelod Cabinet y tu ôl i chi yn bwriadu ei wneud yn wreiddiol.

Ydych chi'n cytuno â mi, bod angen mwy o orfodi mewn gwirionedd i edrych ar ddulliau gwell o orfodi'r system bresennol heb gosbi'r rhan fwyaf o berchenogion cŵn sy'n gwneud yr ymdrech i lanhau ar ôl eu cŵn, ac mai'r lleiafrif yw'r rhai y dylech fod yn mynd ar eu hôl? Efallai y gall yr Aelod Cabinet dros Briffyrdd gynnig awgrymiadau gan gadw mewn cof nifer y gyrwyr y mae'n edrych fel petai'r Cyngor hwn yn hoffi mynd ar eu holau hefyd.

Ateb – Y Cynghorydd Michael
Rwy' wedi drysu'n lân, os ydych chi'n cydymffurfio â'r gyfraith ac yn peidio gwneud dim o'i le, yna ni chymerir camau gorfodi yn eich erbyn.

Yr hyn yr oedden ni'n ceisio ei wneud oedd ei gwneud yn haws i roi camau gorfodi ar waith yn erbyn y rheiny sydd yn troseddu. Mae'n achosi penbleth i mi eich bod wedi dweud yn gynharach eich bod am wrthwynebu popeth yn ymwneud â hyn ac mai nid un ymgynghoriad sengl oedd hwn ond bod pum elfen wahanol iddo.

Yr hyn wnaethon ni oedd ymgynghori, byddwn yn myfyrio ar yr ymgynghoriad hwnnw ac yna byddwn yn gwneud penderfyniad.

Cwestiwn – Y Cynghorydd Sandrey
Pa rôl y dysgwylir y bydd cwmnïau mawr yn y datblygiad yn y Sgwâr Canolog yng nghanol y ddinas yn ei chwarae o ran annog defnyddio dulliau trafnidiaeth ar sail 50/50?

Ateb – Y Cynghorydd Wild
Gan fod y datblygiad newydd o amgylch yr Orsaf Ganolog a'r orsaf fysus hefyd, mae ynddo'i hun yn broject a fydd yn gwneud i Gymru ailystyried sut ydym yn cymudo i'r gwaith.

Rhan o'r hyn sy'n denu buddsoddiad yn yr ardal honno yw hygyrchedd y safle i weithwyr o amgylch y rhanbarth, yn enwedig gyda'r cynlluniau cyffrous ar gyfer y Metro newydd yn dechrau dod i siâp. Wedi dweud hynny rydym yn disgwyl i gwmnïau chwarae eu rhan ac mae'r holl ganiatâd a roddwyd hyd yn hyn wedi bod yn destun amodau sy'n gofyn am lunio Cynlluniau Teithio. Mae'r fath gynlluniau yn rhoi manylion mesurau y bydd datblygwyr a deiliaid adeiladau newydd yn eu rhoi ar waith i hyrwyddo a hwyluso dulliau teithio cynaliadwy yn ôl ac ymlaen i'r gwaith gan gyflogeion.

Cwestiwn Atodol – Y Cynghorydd Sandrey
O ystyried bod yr adeiladau yn y Sgwâr Canolog yn sefyll yn union ar safle'r orsaf fysys gynt, a wnewch chi weithio gyda'r cwmnïau dan sylw i'w hannog i ddeall ei bod yn bwysig bod eu cyflogeion yn defnyddio dulliau teithio llesol a/neu drafnidiaeth gyhoeddus i deithio i'r gwaith pan fo'n bosibl?

Ateb – Y Cynghorydd Wild
Rydym yn gwneud, a byddwn yn gwneud hynny. Un peth rydym yn ystyried ei wneud yw – mae darn o waith ardderchog wedi'i wneud gan Iechyd Cyhoeddus Cymru i annog y Sector Preifat i geisio bwrw targedau teithio llesol a byddwn yn herio'r sector masnachol i ystyried cymryd rhan a cheisio bwrw'r targedau uchelgeisiol hyn hefyd.

Cwestiwn – Cynghorydd Ahmed
Mae trigolion yng Nghaerdydd yn falch iawn o weld lonydd beiciau mewn rhai rhannau o Gaerdydd. A fyddech gystal â rhoi diweddariad i ni ar gynnydd cyflwyno lonydd beiciau pellach yng Nghaerdydd?

Ateb – *Y Cynghorydd Wild*
Mae adeiladu "stryd feiciau" ar Taff Embankment fel rhan o'r project Grangetown Werddach newydd ei gyflwyno'n ddiweddar a hefyd yn union rownd y gornel yn eich ward chi, cafodd maes parcio Heol y Gogledd hyd at lwybr Taith Taf lôn feiciau newydd ar wahân a warchodir.

Mae gennym waith dylunio manwl ar Dumfries Place a Senghennydd Road sy'n destun Gorchmynion Rheoli Traffig ac rwy'n gwybod bod problemau lleol yr ydym yn ceisio mynd i'r afael â nhw cyn y gallwn ni fwrw ymlaen â'r cynllun hwnnw, ond dros amser rydym yn ystyried cyflwyno rhwydwaith lawn yn amodol ar gyllid digonol i gyflwyno lonydd beiciau a warchodir.

Cwestiwn Atodol – Y Cynghorydd Ahmed
Rwy'n gwybod eich bod wedi trwsio llawer o geudyllau yn y ffyrdd, y lonydd beiciau sy'n cael eu cyflwyno nawr ac yn y dyfodol, ydych chi'n bwriadu trwsio'r ceudyllau sydd yno'n barod sy'n gallu bod yn ddifrifol beryglus yn enwedig i blant a phobl mewn oed? Beth yw eich cynlluniau ar gyfer trwsio'r ceudyllau hynny ac rwy'n siŵr eich bod yn gwybod ble maen nhw?

Ateb – Y Cynghorydd Wild
Rydym wedi cynyddu'r buddsoddiad mewn gwaith trwsio a gwaith ar geudyllau eleni, cafodd rhywfaint ohono ei ddal yn ôl gan y tywydd, ond mae llawer ohono wedi'i wneud bellach. O ran y lonydd beiciau newydd rydym bellach yn buddsoddi mewn

arwynebau a ddefnyddir yn bennaf gan feicwyr yn unig, felly rydym wedi newid y fformiwla ar gyfer hynny.

Cwestiwn- Y Cynghorydd Robson
A wnewch chi roi'r newyddion diweddaraf i'r Cyngor ar ganlyniad eich cyfarfod diweddar gyda Phrif Weinidog Cymru ynghylch cyllideb drafft Llywodraeth Cymru?

Ateb- Y Cynghorydd *Huw Thomas*
Rwy'n credu eich bod yn gwybod mwy am fy nyddiadur na mi oherwydd dydw i ddim yn siŵr ba gyfarfod rydych yn cyfeirio ato, a byddwn yn ddiolchgar petaech yn rhoi eglurhad.

Cwestiwn Atodol – Y Cynghorydd Robson
Yn ôl yr hyn a ddeallaf, ynghyd â nifer o Arweinwyr Cynghorau Llafur eraill, buoch mewn cyfarfod gyda Phrif Weinidog Cymru a'r Gweinidog Cyllid yn trafod Cyllideb Llywodraeth Leol ac er nad oes gennyf unrhyw wrthwynebiad wrth gwrs i chi gyfarfod â'r rheiny sy'n gyfrifol am y gyllideb, roeddwn i'n ystyried tybed a yw'n briodol mai dim ond y 6 neu 7 o Arweinwyr Cynghorau Llafur yng Nghymru oedd yn y cyfarfod ac nad yw'r rhan fwyaf o'r Cynghorau sy'n cael eu harwain gan glymbleidiau neu gan bleidiau eraill yn cael yr un cyfleoedd i gael cyfarfod o'r fath i siarad â'r rheiny sy'n gyfrifol am y gyllideb mewn ymdrech i sicrhau arian ym mhob rhan o'r sector?

Ateb - Y Cynghorydd Huw Thomas
Wel dydw i ddim wedi cwrdd â'r Prif Weinidog i drafod hynny, fodd bynnag, rwy'n gobeithio cwrdd eg ef yr wythnos nesaf gyda'm cyd arweinyddion yn y Blaid Lafur.

Gallaf roi rhywfaint o sicrwydd, rwy'n credu, oherwydd mae'n debyg mai'r sefyllfa y bydd yr Arweinyddion Llafur yn ei godi gyda'r Prif Weinidog yw'r angen am fwy o arian, sefyllfa sy'n cyd-fynd yn well â sefyllfa Arweinydd y Fro ac Arweinydd Sir Fynwy na'r Arweinydd Ceidwadol yn y Cynulliad.  Rydym wedi gweld ei fod eisiau cosbi awdurdod lleol yn Ne Cymru er mwyn rhoi mwy o arian i awdurdod gwledig yng Ngogledd Cymru.

Yr hyn sydd rhaid i ni ddeall yn fy marn i yw hyn, bod y fformiwla dosbarthu yn cael ei osod yn gwbl glir, ei gytuno drwy drafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru a'r CLlLC, gan gynnwys swyddogion o'r Cyngor hwn, felly bydd unrhyw godiad y gallwn ni ei sicrhau fel Arweinyddion Llafur ar ran llywodraeth leol yn cael ei adlewyrchu yng nghyllidebau'r holl Gynghorau yn ogystal â chynghorau Llafur.

Cwestiwn – Y Cynghorydd *Boyle*
Yn ei adroddiad i'r Cabinet, *Datblygu'r Ystâd Addysg yng Nghaerdydd* (Hydref 2017), nododd yr arweinyddiaeth bod 'y carfanau cynradd mawr bellach yn cyrraedd oedran ysgol uwchradd ac erbyn mis Medi 2019, byddant yn drech na nifer y lleoedd sydd ar gael ledled y ddinas ar adeg eu derbyn i Flwyddyn 7'.

All yr Aelod Cabinet roi diweddariad i ni ar y sefyllfa o ran capasiti ysgolion uwchradd a nodi'n fanwl pa gapasiti sydd wedi neu a gaiff ei ychwanegu at y system mewn pryd erbyn mis Medi nesaf?

Ateb – Y Cynghorydd Wild

Mae’r amcanestyniadau diweddaraf ledled y ddinas a fesul dalgylch yn nodi y bydd digon o leoedd drwyddo draw ar adeg derbyn disgyblion i addysg uwchradd ym mis Medi 2019.

Er gwaethaf rhagamcanu y bydd digon o leoedd ar gael yn seiliedig ar y data diweddaraf un, rydym yn cydnabod - yn sgil yr amrywiadau o ran tueddiadau sy'n gysylltiedig â chyfraddau mudo net ac ansicrwydd mewn perthynas ag effaith Brexit - mae angen i ni sicrhau bod mwy o leoedd ar gael nag disgwylir y bydd eu hangen.

Mae swyddogion wrthi’n cydweithio gydag ysgolion i nodi’r canran o leoedd gwag mwyaf priodol yn seiliedig ar yr amcanestyniadau diweddaraf ar gyfer mis Medi 2019 a’r lleoliad mwyaf priodol ar ei gyfer.

<u>Cwestiwn Atodol</u> – Y Cynghorydd Boyle
Felly, er mwyn cadarnhau, ar gyfer mis Medi 2019 gallwn anwybyddu’r rhybuddion a nodwyd yn adroddiad y llynedd i bob pwrpas – mae digon o gapasiti ar gyfer y mis Medi hwn ac mae'r hyn sy'n cael ei honni yn yr adroddiad yn cadarnhau bod y sefyllfa wedi gwella mewn gwirionedd a bod eich pryderon chi'n ymwneud â'r 12 mis wedi hynny ac mae dyma'r hyn rydych chi'n gweithio arno nawr.  Ydw i wedi deall hynny’n iawn? -  dim ond er mwyn rhoi sicrwydd i'r bobl sy'n mynd drwy'r broses o wneud cais ar hyn o bryd ynghylch hynny.

<u>Ateb – *Y Cynghorydd Wild*</u>
Yr hyn ddywedais i oedd bod swyddogion yn cydweithio gydag ysgolion i nodi’r canrannau mwyaf priodol o ran nifer y lleoedd gwag yn seiliedig ar yr amcanestyniadau mwyaf diweddar ar gyfer mis Medi 2019. Mae rhywfaint o gydnabyddiaeth er ei bod yn bosib bod gennym ddigon o leoedd, nid yw cael digon o leoedd ledled y Ddinas yn ddigon o bell ffordd.

<u>Cwestiwn</u> – Y Cynghorydd De’Ath
Allech chi roi’r ystadegau i ni ar gyfer bagiau ailgylchu gwyrdd nad ydynt yn cael eu casglu yn y ddinas?

<u>Ateb</u> – Y Cynghorydd *Michael*
Yn ystod y 12 mis olaf o fis Hydref 2017 i fis Medi 2018, mae'r uned Rheoli Gwastraff wedi cael 2,064 o gwynion am gasgliadau bagiau gwyrdd a fethwyd. Nid yw’r ffigwr hwn yn cynnwys bagiau gwyrdd sydd wedi’u halogi na bagiau a gyflwynwyd i’w casglu ar y diwrnod anghywir, y dywedwyd wrth y criwiau i beidio eu casglu.

I roi hyn mewn cyd-destun, mae’n werth nodi bod y tîm yn gwasanaethu 156,000 o gartrefi bob wythnos ar gyfer casgliadau bagiau gwyrdd a bod nifer y cwynion sydd wedi dod i law mewn cysylltiad â chasgliadau a fethwyd yn ystod y 12 mis diwethaf gyfystyr â 0.3% o'r holl gasgliadau.

<u>Cwestiwn Atodol</u> – Y Cynghorydd De'Ath
Mae’n dda gwybod bod cyn lleied o gasgliadau yn cael eu colli ac rwy’n gwybod eich bod yn gweithio’n galed iawn i sicrhau bod y ffigyrau dan sylw mor isel â phosibl, fodd bynnag, mae Wordsworth Avenue yn y Rhath wedi bod yn cael problemau gyda chasgliadau gwastraff am amser maith, yn enwedig mewn perthynas â chasglu

bagiau gwyrdd pan fo casgliadau wedi'u methu 3 gwaith ers mis Awst yn unig ac mae trigolion yn dechrau teimlo'n rhwystredig gyda'r awdurdod lleol.
Allech chi roi'r newyddion diweddaraf i ni o ran eich ymdrechion i sicrhau na fydd hyn yn digwydd yn y dyfodol?

Ateb – Y Cynghorydd Michael
Rwy'n meddwl mai un o'r problemau yno ydy'r trefniadau parcio, y sefyllfa o ran cael mynediad gan fod gwaith adeiladu yno a bod pobl yn parcio yn y ffordd anghywir ac mae hynny'n ei gwneud yn anodd i'n cerbydau deithio trwodd. Rydw i wedi siarad â swyddogion ers hynny ac maen nhw wedi fy sicrhau y byddan nhw'n gwneud yn siŵr y caiff y bagiau eu casglu. Rwy'n deall ac yn cydymdeimlo â rhywun y mae eu bagiau wedi cael eu gadael, dydyn ni ddim eisiau gadael unrhyw fagiau ar ôl a thra byddaf i yn y swydd hon byddaf yn parhau i geisio gwella'r record honno.

Cwestiwn - Y *Cynghorydd Driscoll*
Yn dilyn yr arolwg traffig diweddaraf mewn cysylltiad â symudiadau traffig tua'r dwyrain a'r gorllewin ar hyd Western Avenue, dros gyfnod yr arolwg, beth oedd y cyflymderau a nodwyd, a sawl cerbyd oedd yn teithio yn uwch na'r cyflymderau hynny ymhob categori rhwng 40-50, 50-60, 60-70, 70-80, 80-90, 90-100, 100+ m.y.a. - nid ar sail cyfartaleddau.

Ateb – Y Cynghorydd Wild
Gosodwyd peiriant SDR Radar Traffic Classifier ar Western Avenue yn Llandaf yn gynharach eleni yn ystod yr wythnos yn dechrau 10 Awst. Byddwn yn hapus i roi canlyniadau manwl yr arolwg i chi ar ôl y cyfarfod hwn.

Cwestiwn Atodol – Y Cynghorydd Driscoll
Soniodd y Cynghorydd Michael ei fod wedi cael rhywfaint o gyngor gan gyn-gynghorydd, rhoddodd y Cynghorydd Michael ychydig o gyngor i mi sef peidiwch byth a gofyn cwestiwn oni bai eich bod yn gwybod yr ateb. Felly, dyma'r ateb, ar un diwrnod ar Western Avenue yn yr arolwg hwnnw, un diwrnod 24 awr, teithiodd 2800 o'r cerbydau yn uwch na'r terfyn cyflymder, 410 hyd at 60mya, 37 hyd at 70mya, 10 hyd at 80mya, 3 hyd at 90mya a 2 hyd at 100mya.

Yn nhrefn blaenoriaeth, mae gen i'r rhestr o 60 o groesfannau sy'n flaenoriaeth o ran diogelwch yma a'r 17 terfyn cyflymder nesaf, mae Western Avenue ar waelod y rhestr o ran cyflymder traffig ac nid yw'r groesfan ddiogel a gynlluniwyd ar gyfer Caerau Road ar y rhestr hyd yn oed.

Mae 70 o gerbydau yn teithio hyd at 80mya – felly pryd ydych chi'n bwriadu rhoi'r lleoliad hwn ar y rhestr, gofynnais i chi yn y cyfarfod diwethaf a dywedoch chi y byddwch yn ei symud i fyny'r rhestr. Rydyn ni eisiau'r groesfan ar y rhestr ac am weld blaenoriaeth Western Avenue yn cael ei symud i fyny'r rhestr.

Ateb – *Y Cynghorydd Wild*
Mae'n ddiddorol eich bod chi'n rhoi'r ffigyrau i mi a chithau wedi gofyn i mi am y ffigyrau. Rwy'n meddwl bod y ceir ar y ffordd honno, fel y dywedais wrthych o'r blaen, yn teithio'n rhy gyflym yn amlwg. Byddaf yn edrych ar y rheina ac yn cadarnhau lle mae o ar y rhestr ond ni ddylem fod yn defnyddio rhywbeth technegol i'w wneud gyda diogelwch y ffyrdd yn seiliedig ar sawl gwaith rydych wedi gofyn i mi

yn y siambr felly beth am edrych arno a gweld ble mae o ar y rhestr a byddaf yn cadarnhau hynny ar eich cyfer.

Cwestiwn – Y Cynghorydd Berman
Yn wyneb yr adroddiadau parhaus, ac anghyson weithiau, ar y cyfryngau ynghylch dyfodol cangen House of Fraser Caerdydd, pa sicrwydd allwch chi ei roi bod y cyngor yn parhau i weithio gyda'r holl bartïon dan sylw i sicrhau dyfodol y siop yn y ddinas hon?

Ateb – Y Cynghorydd *Goodway*
Deallaf fod posibilrwydd y gall House of Fraser benderfynu peidio â defnyddio pob rhan o'r gofod manwerthu presennol ac, o ganlyniad, y nod fyddai denu ystod o fanwerthwyr i'r siop yn ogystal â'i defnyddio, yn amodol ar ganiatâd cynllun, fel gwesty / gweithgareddau hamdden. Nodwyd bod angen ehangu'r gweithgareddau yn adeilad Howells mewn cyfarfod cynharach rhwng y Cyngor a'r perchenogion Naissance Capital ac mae'r strategaeth hon yn destun gwaith pellach ar hyn o bryd.

Wrth i'r pwysau ar y sector manwerthu barhau, mae perchenogion eiddo manwerthu fwy a mwy yn edrych ar ehangu'r defnydd a wneir o'r adeiladau a throi siopau a oedd unwaith yn canolbwyntio ar y sector manwerthu yn unig yn adeiladau sy'n cynnig rhywbeth mwy amrywiol. Mae Naissance Capital wedi rhoi gwybod i'm swyddogion am yr heriau a wynebir ganddynt yng Nghaerdydd a, gan fod adeilad Howells yn addas i'w rannu a'i ddefnyddio mewn gwahanol ffyrdd ac yntau'n 270,000 troedfedd sgwâr ac yn sefyll ar safle 1.7 acer, maen nhw'n ystyried pob posibilrwydd.

Y nod yw defnyddio'r adeilad mewn dull mwy cynaliadwy a bydd swyddogion yn parhau i gydgysylltu â'r perchenogion i gynnig cymorth iddynt gyda'u hymdrechion i sicrhau dyfodol mwy cynaliadwy i'r siop.

Cwestiwn Atodol – Y Cynghorydd Berman
Mae'n dda gwybod bod y Cyngor yn gwneud popeth y gallai ei wneud ac rwy'n gwerthfawrogi nad yw'r cyfan dan reolaeth y Cyngor.

O ystyried y newyddion mai Debenhams yw'r gadwyn ddiweddaraf sy'n wynebu problemau, ro'n i'n meddwl tybed ba fentrau ydych chi'n ystyried eu cyflwyno i sicrhau ein bod yn parhau i fod â chynnig manwerthu o safon ac amrywiol yng Nghaerdydd oherwydd yn amlwg os oes un siop fawr mewn perygl yna mae'n bosib y bydd un arall mewn perygl cyn bo hir nad ydym yn gwybod amdani eto, a gallai hynny effeithio ar siopau eraill ledled canol y ddinas os yw'n dechrau lleihau nifer yr ymwelwyr ymhellach.

Felly sut ydych chi'n bwriadu bwrw ymlaen â hyn i sicrhau bod Caerdydd mewn sefyllfa dda i wrthsefyll yr heriau hyn?

Ateb – Y Cynghorydd Goodway
Rwy'n credu y bydd y Cynghorydd yn gwerthfawrogi bod hwn yn ffenomenon Genedlaethol ar hyd o bryd, ond rwy'n derbyn bod rhaid i ddinasoedd unigol fod mor greadigol â phosibl os ydyn nhw am sicrhau nad yw pobl yn wynebu rhwystrau y mae'n rhaid eu goresgyn wrth ddod i ganol y ddinas i siopa.

Rwy'n credu bod mentrau penodol y gallwn ni eu hystyried er mwyn, efallai, cynnal digwyddiadau manwerthu penodol a fydd yn rhoi'r cyfle i siopau ganolbwyntio ar un cynnig arbennig sy'n ddeniadol i wahanol genedlaethau o bobl ac a fydd yn cynyddu nifer yr ymwelwyr dros gyfnod o fisoedd.

Alla i ddim honni bod atebion gyda ni ond awgrymaf y byddwn fwy na thebyg yn cydweithio â'n partneriaid yn y fenter Dinasoedd Craidd sydd yn amlwg yn wynebu'r un heriau.

Cwestiwn – Y *Cynghorydd Owen Jones*
Yn wyneb yr ymgynghoriad ar Orchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus yn cau ddydd Llun, all yr Aelod Cabinet roi'r newyddion diweddaraf i ni am unrhyw gamau posibl y gellir eu rhoi ar waith?

Ateb - Y Cynghorydd Bradbury
Rwy'n gwybod bod hwn yn bwnc sydd wedi bod o ddiddordeb mawr i chi. Rydym wedi cael ymateb syfrdanol i'r ymgynghoriad ac rydym, wrth gwrs, wedi nodi'r teimladau cryf ymysg y cyhoedd yn erbyn cynigion i wahardd cŵn oddi ar gaeau chwarae â marciau arnynt ar adegau penodol yn ystod y flwyddyn.

Ar ôl asesu'r holl wybodaeth sydd ar gael a chanlyniadau'r ymgynghoriad, bydd y Cabinet yn gwneud penderfyniad ffurfiol yn gynnar yn y Flwyddyn Newydd. Fodd bynnag, fy marn bersonol i, yr ydw i wedi'i thrafod gyda'm cydweithwyr yn y Cabinet ac sydd ers hynny wedi'i chyhoeddi ar y cyfryngau, yw ei bod yn annhebygol y byddwn yn gallu bwrw ymlaen â'r elfen hon o'r cynigion.

Byddwn nawr yn symud ymlaen i gynnal adolygiad llawn o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn cydweithio'n glos â chlybiau chwaraeon y ddinas, pobl sy'n mynd â chŵn am dro a rhanddeiliaid eraill y parciau i ganfod y ffordd ymlaen gyda golwg ar sicrhau bod ein mannau cyhoeddus a gwyrddion yn lân ac yn ddiogel i bawb.

Cwestiwn Atodol – *Y Cynghorydd Owen Jones*
Alla i nodi ar gof a chadw fy mod yn eich cymeradwyo Peter am eich ymroddiad i Wythnos Democratiaeth Leol, nawr does gen i ddim amheuon nad yw unrhyw un sy'n berchen ar gi yn gwybod pwy yw eu Cynghorydd lleol ar y cam hwn felly da iawn am hynny, gwaith gwych.

Yr hyn sydd wedi deillio o'r GDMC ac rwy'n falch o glywed fod yr elfen caeau chwaraeon wedi'i dynnu allan, yw ei bod yn amlwg bod parodrwydd ar ran perchenogion cŵn i helpu gyda'r sefyllfa hon gan mai lleiafrif sy'n achosi'r broblem.

Mae gennym wirfoddolwyr gwych yn gweithio gyda Cadw Cymru'n Daclus a'n projectau casglu sbwriel, felly mae hon yn elfen y gallwn ei defnyddio i sicrhau bod perchenogion cŵn cyfrifol i helpu gyda'r sefyllfa oherwydd nhw sy'n sylw ar bethau a gallant ein helpu ac maen nhw'n cynnig gwneud hynny?

Ateb - Y Cynghorydd Bradbury
Rwy'n cytuno'n llwyr gyda'r pwynt olaf yn enwedig o ran sicrhau bod perchenogion cŵn yn arwain y gwaith hwn, rwy' wedi cwrdd â Grŵp Gweithredu Cŵn Caerdydd ac

wedi cwrdd â phobl sy'n mynd â chŵn am dro yn fy ward fy hun yn ystod y broses ymgynghori a ro'n i'n awyddus iawn eu bod nhw'n teimlo bod eu barn nid yn unig o ran 6 elfen y GDMC yn cael ei adlewyrchu ond bod rhai o'r awgrymiadau gwych a wnaethon nhw mewn perthynas â chadw'n parciau yn lân nid yn unig o ran baw cŵn ond hefyd sbwriel ac agweddau eraill ar yr heriau y mae'n rhaid i ni eu hwynebu yma fel Cyngor mewn cysylltiad â'n parciau. Byddaf yn cwrdd â'r grwpiau sy'n berchen ar gŵn ac rwy'n gobeithio y byddwn yn cyrraedd cam yn y dyfodol agos pan fydd gennym grwpiau fel y gymuned sy'n mynd a chŵn am dro a grwpiau gweithredu chwaraeon yn eistedd gyda'i gilydd i chwarae eu rhan a chytuno â ni fel Cabinet a Chyngor gan fod hwn yn benderfyniad Cyngor eang, y byddwn yn llunio GDMC a fydd yn bodloni pawb ac y ei gellir ei basio heb unrhyw wrthdaro.

Cwestiwn – Y Cynghorydd *Gavin Hill-John*
Yn dilyn cau Rover Way rhwng 10 a 12 Hydref pa wersi a ddysgwyd a pha brotocolau sydd bellach ar waith i sicrhau na chaiff yr anrhefn a achoswyd yn sgil y cau hwn ei ailadrodd?

Ateb – Y Cynghorydd Wild
Rhaid i mi nodi y bu Rover Way ar gau tan amser cinio ar 11 Hydref nid oedd ar gau tan 12 Hydref. Roeddech chi'n sôn am brotocolau y gellid eu rhoi ar waith, rwy'n meddwl i fod yn deg na ddilynwyd y protocolau dan sylw ar y diwrnod hwnnw a dylen nhw fod wedi'u dilyn.

Rwy'n meddwl bod pawb wedi synnu at faint yr angladd a gynhaliwyd ac mai dyna a achosodd y rhan fwyaf o'r problemau ond cytunaf na ddilynwyd rhai protocolau ac y dylid fod wedi'u dilyn.

Cwestiwn Atodol – Y Cynghorydd *Gavin Hill-John*
Dywedoch chi na ddilynwyd protocolau, felly beth ydyn ni'n mynd i'w wneud yn y dyfodol i sicrhau eu bod yn cael ei dilyn os bydd hynny'n digwydd byth eto.

Ateb – Y Cynghorydd Wild
Rydw i wedi siarad gyda'r Swyddogion a'r Heddlu oedd ynghlwm wrth hyn ac wedi dweud yn glir ac yn ddi-flewyn-ar-dafod y dylid eu dilyn y tro nesaf.

Cwestiwn – Y Cynghorydd Cartrer
Yng ngoleuni'r cyfnodau maith y mae tai cyngor yn wag rhwng tenantiaid, pa gamau y mae'r cyngor yn eu rhoi ar waith i sicrhau bod yr eiddo dan sylw yn cael eu hailddefnyddio'n gynt?

Ateb – Y Cynghorydd Thorne
Fel y gwyddoch, trafodwyd y mater hwn yn gynharach yn ystod y mis yng nghyfarfod Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol ac Oedolion, pan esboniwyd bod un o'r tri chontracwyr a benodwyd i ddelio â gwaith cynnal a chadw ar eiddo gwag yng Ngorllewin Caerdydd wedi dod â'u contract i ben ar ddiwedd mis Medi.

Caiff tender ei gyhoeddi cyn bo hir am gontract newydd ar gyfer gwaith ar eiddo gwag yn unig a rhagwelir y caiff y contractwr newydd ei benodi erbyn mis Ebrill 2019. Bydd y contract yn cwmpasu'r holl ardaloedd yng Nghaerdydd a bydd yn ein galluogi i benodi contractwr addas arall mewn ymateb i'r galw.

Mae tîm eiddo gwag mewnol wrthi’n cael ei sefydlu. Bydd y tîm hwn yn gweithio ar raddfa fechan i ddechrau, gyda’r bwriad o adeiladu’r capasiti hwn ymhellach yn y dyfodol.

Mae nifer o bethau yr ydym yn eu gwneud i fynd i’r afael ag eiddo gwag. Caiff rhai eiddo eu gosod pan fo’n bosib a bydd rhywfaint o’r gwaith atgyweirio’n cael ei wneud gyda’r tenant yn byw yn yr eiddo hwnnw, cynigir rhai eiddo gyda lwfans addurno. Caiff eiddo arall ei basio i ddarparwr llety dros dro'r Cyngor ar yr amod eu bod nhw'n gwneud y gwaith ar yr eiddo. Cynigir cyllid ar gyfer y gwaith hwn ar y cyfraddau arferol.

<u>Cwestiwn Atodol</u> – Y Cynghorydd Carter
Diolch am yr ymateb manwl dros ben, mae’n dda bod y siambr gyfan yn clywed hynny.

Y rheswm dros ofyn y cwestiwn oedd y pryder fod y contractwr wedi rhoi'r gorau iddi a'r perygl o orfod aros tan fis Ebrill y flwyddyn nesaf nes cawn ni gontractwr arall yn ei le. Yn y cyfamser ai eich gweledigaeth chi yw y bydd y darparwr mewnol a’r contractwyr eraill yn gwneud unrhyw waith sydd eto i'w gwblhau tan fis Ebrill?

<u>Ateb</u> – Y Cynghorydd Thorne
Rydym yn bwriadu gwneud ein gorau, mae’n rhaid i mi ddweud ei fod yn peri pryder i mi fod rhaid i ni ddisgwyl tan fis Ebrill i benodi contractwr arall a’r gwir yw fy mod wedi ysgrifennu at y Cynghorydd Walker fel Cadeirydd Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad i ofyn a fyddai'n barod rhoi grŵp gorchwyl a gorffen at ei gilydd i edrych ar yr amserlenni. Dywedodd eu bod nhw eisoes wedi gwneud hynny ond petawn i’n rhoi mwy o wybodaeth iddo y byddai’n gofyn i’r Pwyllgor graffu arno.

Aethon ni drwy broses gyfan a phan fydd contractwr yn rhoi’r gorau iddi ar adeg mor hwyr â hyn nid oedd modd i ni fynd yn ôl at y tendrau eraill ac mae'n siomedig ein bod wedi'n gadael yn y sefyllfa sydd ohoni ar ôl rhoi 3 chontractwr ar waith i sicrhau y gallwn ni wirioneddol ymdopi â'r baich gwaith.

<u>Cwestiwn</u> – Y Cynghorydd Cunnah
Allai’r Aelod Cabinet roi’r newyddion diweddaraf i ni ar y cynllun peilot mewn perthynas â chasglu gwydr a photeli?

<u>Ateb – Y Cynghorydd Michael</u>
Mae’r cynllun peilot ar gyfer casglu poteli a jariau gwydr ar wahan i'w hailygylchu yn mynd yn dda.

Aeth y gwaith o ddosbarthu deunydd cyfathrebu a chadis glas i gartrefi sy’n cymryd rhan yn y cynllun ymlaen fel y bwriadwyd. Siaradodd ein timau â mwy na 1,000 o drigolion yn ystod y sesiynau allgymorth ac mae’r cyhoedd wedi bod o blaid y newidiadau, a diolchaf iddynt am hynny.

Mae casgliadau bellach ar eu hail wythnos ac mae nifer yr adroddiadau am ddefnyddio’r cadi glas yn anghywir, sydd ar gyfer poteli a jariau gwydr yn unig, yn

isel. Mae swyddogion hefyd yn monitro faint o wydr sy'n cael ei gasglu ac ansawdd y cynnyrch gwydr, ac mae'r canlyniadau cyn belled yn addawol dros ben.

Rwy'n hapus gyda chynnydd y cynllun peilot a bydd swyddogion yn parhau i roi diweddariadau wythnosol i Gynghorwyr yn yr ardaloedd sy'n cymryd rhan yn y treial.

<u>Cwestiwn Atodol</u> – Y Cynghorydd Cunnah
Diolch am y diweddariad yma mae'n ymddangos i mi y bu ymateb da i'r peilot yn Nhreganna, fel y gwyddoch, mae tua thraen o ward Treganna cymryd rhan yn y cynllun.

Rydych hefyd yn gwybod oherwydd cwrddais â chi yno, gwnaethoch groesawu mi a Chynghorwyr eraill i'r Cyfleusterau Ailgylchu Deunyddiau (CAD) yn ddiweddar lle buom yn edrych ar beth sy'n digwydd gyda gwydr ar hyn o bryd yn ogystal â'r holl wastraff arall. Gwnaeth yr holl dechnoleg a ddefnyddir argraff fawr arnaf a hefyd gwaith a wneir â llaw gan y gweithwyr yno sy'n gallu bod yn waith caled a budr, yn enwedig mewn cysylltiad â bagiau gwyrdd sydd wedi'u halogi.

Esboniwyd i mi am y gwydr, am y buddion economaidd ac amgylcheddol sy'n gysylltiedig â'i wahanu yr ydw i'n ei gefnogi'n llawn ond yn y CAD hwnnw roedd llawer o wastraff arall hefyd y gellir ei wahanu efallai neu efallai bod dulliau eraill o'i brosesu a fydd o fudd amgylcheddol ac economaidd i'r Cyngor, felly roeddwn yn meddwl tybed a oes unrhyw beth arall y gallwn ei wneud i wella'n hailgylchu, ein helpu i sicrhau cyfraddau gwell a chael rhagor o arian?

<u>Ateb – Y Cynghorydd Michael</u>
Mwynheais siarad â chi a'r Cynghorydd McKerlich ac eraill aeth i'r safle, rwy'n dal i ryfeddu cymaint o Gynghorwyr sydd heb fod yn y safle a hoffwn petai pob un ohonynt yn dod i ymweld ag o.

Rwy'n meddwl er gwaethaf y ffaith bod gennym record dda ac mai ni yw'r ddinas orau am ailgylchu rwy'n meddwl bod rhaid i ni adolygu'r hyn a wnawn a sut yr ydym yn ei wneud. Rwy'n meddwl bod rhaid i ni godi safon yr ailgylchu i sicrhau marchnadoedd gwell. Rydym yn mynd i weithio gyda'r Rhaglen Gweithredu Gwastraff ac Adnoddau ac rydym yn cael llawer o drafodaethau gyda Llywodraeth Cymru felly byddwn yn gweithio gyda nhw a hefyd rwy'n meddwl o ddifrif bod angen cyflwyno elfen o addysg a gallen ni wirioneddol wneud mwy i ymgysylltu â'r trigolion a chwtogi ar y faint o stwff a gyflwynir yn ein bagiau gwyrdd na ddylai fod yno, mae gormod o halogi. Mae gennym lawer o waith caled i'w wneud yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf ac rwy'n annog pawb i fanteisio ar hynny a dod i Ffordd Lamby ac oes angen i ni gynnal cynlluniau peilot i sicrhau ansawdd gwell yna rwy'n meddwl y byddem yn defnyddio'r un dulliau a ddefnyddiwyd ar gyfer y Peilot Gwydr achos bod hwnnw'n mynd yn dda cyn belled.

<u>Cwestiwn</u> – Y Cynghorydd *Hudson*
Beth yw eich cynlluniau pan ystyrir nad oes angen yr ail safle Cyngor yn Heol Wedal isaf, ac a gaiff ei roi ar werth drwy ocsiwn?

<u>Ateb</u> – Y Cynghorydd Goodway

Nid oes unrhyw benderfyniad wedi'i wneud eto o ran y dyddiad y gellir sicrhau meddiant gwag mewn perthynas â'r eiddo hwn na'r dull o gael gwared arno. Fodd bynnag, rwy'n gwybod bod y Cynghorydd yn gyfarwydd iawn â'r protocol sy'n darparu ar gyfer cynnig y safle i bartneriaid sector cyhoeddus yn y lle cyntaf.

Cwestiwn Atodol – Y Cynghorydd Hudson
Fel y Cynghorydd Driscoll, rwy'n gwybod yr ateb, ond rwy'n gofyn i chi beth bynnag er mwyn ei roi ar gof a chadw. A ydyw eisoes wedi'i gynnig i gorff cyhoeddus?

Ateb – Y Cynghorydd Goodway
Os ydych yn gwybod yr ateb gallaf ddweud wrthych heb air o gelwydd dydw i ddim ac felly os gallech chi roi gwybod i mi ar ôl y cyfarfod byddwn yn ddiolchgar dros ben a byddaf yn trafod hynny gyda fy swyddion.

Cwestiwn - Y Cynghorydd Parkhill
Wnaethoch chi gymeradwyo'r ddogfen ymgynghori'r GDMC cyn iddo gael ei ryddhau i'r cyhoedd?

Ateb - Y Cynghorydd Bradbury
Do, fi gymeradwyodd y prif gwestiynau yn y ddogfen ymgynghori a hefyd mi wnes i gymeradwyo agweddau eraill ar yr ymarfer ymgynghori, gan gynnwys darparu blwch post ar gyfer yr ymgynghoriad, sicrhau ei fod yn cael ei hysbysebu'n eang ar y cyfryngau cymdeithasol a hefyd rwy'n cymryd cyfrifoldeb am y ffaith mai hwn oedd un o'r ymgynghoriadau mwyaf llwyddiannus i ni ei gynnal ar unrhyw bolisi yr ydym wedi ymgynghori arno gyda bron 6000 o ymatebwyr.

Cwestiwn Atodol – Y Cynghorydd Parkhill
Rwy' ond eisiau deall ychydig bach mwy am eich rhesymeg o ran y grwpio yn un o'r cwestiynau, y pwnc llosg o ran p'un ai a ddylid gwahardd cŵn oddi ar gaeau chwaraeon gyda phynciau diddadl fel mynd â chŵn am dro mewn mynwentydd a hefyd ar diroedd ysgolion y mae'r grŵp yma'n gyfan gwbl o'u plaid.

Hefyd allech chi esbonio ychydig bach mwy am y pryderon a fynegwyd gan drigolion yn ystod y digwyddiad mynd â chŵn am dro dydd Sul diwethaf, roedden nhw'n pryderu bod yr ymgynghoriad hwn yn jerimandro'r atebion gan roi sicrwydd nad hyn fydd yr achos mewn ymgynghoriadau yn y dyfodol.

Ateb - Y Cynghorydd Bradbury
Ar y pwynt olaf sut gallwn ni fod yn llywio'r atebion er mwyn cael ateb, i gael rhywbeth y mae ei eisiau arnom pan fo'r union beth y mae pobl wedi bod yn galw arnom i'w stopio yn cael ei ystyried yn annhebygol iawn.

Nid yw'r ymgynghoriad ond cystal â'i ganlyniadau ac mae'r canlyniadau sydd wedi dod i law wedi dweud bod pryderon sylweddol am hynny felly rydym wedi adlewyrchu hynny. Ni roddwyd y cynigion ar gyfer caeau â marciau arnynt yn yr un grŵp â mynwentydd, ac ni chafodd y caeau â marciau arnynt eu rhoi eu mewn unrhyw grŵp sy'n cynnwys yr elfennau eraill y sonioch amdanynt.

Wedi dweud hynny, ac o edrych yn ôl ni ddylen i fod wedi gwneud hyn, roedd un grŵp yn cynnwys y cwestiwn am feysydd chwarae amgaeedig ond dyna pam y

gwnaethon ni gynnwys adran sylwadau ar yr ymgynghoriad a sefydlu blwch e-bost fel y gallai pobl ymateb yn uniongyrchol i ni gydag unrhyw bryderon penodol a allai fod ganddynt.  Fe wnaethon ni geisio modelu ein hymgynghoriad ar y rhai a gynhaliwyd gan sawl awdurdod lleol arall gan gynnwys Bro Morgannwg sy'n cael ei rhedeg gan y Ceidwadwyr.

90 : MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw faterion brys i'w trafod yn y cyfarfod hwn.

91 : PENODIADAU I'R PWYLLGOR

Derbyniodd y Cyngor yn unol â dymuniad y grŵp gwleidyddol enwebiadau ar gyfer swyddi gwag presennol ar y pwyllgor ac ethol Dirprwy Gadeirydd ar gyfer y Pwyllgor Pensiynau.
PENDERFYNWYD –

1. Penodi Christopher Lay yn aelod o'r Pwyllgor Pensiynau yn unol a Dymuniad y Grŵp Parti.

2. Ethol y Cynghorydd Christopher Lay yn Ddirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Pensiynau am weddill y flwyddyn Ddinesig.

92 : CWESTIYNAU YSGRIFENEDIG

Yn unol â Rheol 17 (f) Gweithdrefn y Cyngor derbyniwyd Cwestiynau Ysgrifenedig i'w hystyried ac roedd ymatebion wedi'u cyhoeddi.